
# Milwyr Ategol






Roedd y gaer garreg yng Ngelligaer yn Gaer Ategol. Er ei bod o dan arweiniad yr 2il Leng Awgwstaidd a rheolaeth penswyddog y Lleng, nid llengfilwyr oedd y gwarchodlu yng Ngelligaer.

Doedd milwyr ategol (o'r gair Lladin "auxilia" – helpu) ddim yn ddinasyddion Rhufeinig fel arfer. Yn wir, roedd y ffaith fod cyfle iddynt ddod yn ddinasyddion Rhufeinig ar ôl iddynt ymddeol yn ddigon i berswadio llawer o bobl i ymuno â'r fyddin. Mae'n debyg mai dyma'r rheswm pam fo'r mwyafrif llethol ohonyn nhw'n wirfoddolwyr.

Fel arfer roedd milwr ategol yn gwasanaethu am 25 mlynedd cyn cael dod yn ddinesydd Rhufeinig. I brofi ei ddinasyddiaeth, byddai milwr yn derbyn "diploma" – sef darn o efydd gydag arysgrif arno. Dim ond ar ôl ymddeol a chael dinasyddiaeth fel hyn y byddai'n cael priodi, ond mae tystiolaeth i'w chael o drefniadau anffurfiol, gyda merched lleol yn aml iawn, cyn i'r dynion ymddeol.

Mae pobl wedi awgrymu bod llawer o lengfilwyr, oedd bob amser yn ddinasyddion, yn feibion i gyn-filwyr ategol.

Roedd y Rhufeiniaid yn realistig iawn am eu galluoedd. Roedden nhw'n gwybod na allan nhw fod yn rhagorol ymhob dull o frwydro felly, i ychwanegu at eu byddinoedd, roedden nhw'n cymryd dynion o'r ardaloedd roedden nhw wedi'u goresgyn oedd yn rhagori mewn technegau brwydro eraill. Mae'n ymddangos bod dynion Silwraidd, efallai o ardal Gelligaer, yn cael eu defnyddio i ffurfio unedau o wŷr meirch ysgafn. Ond doedd milwyr ategol ddim fel arfer yn gwasanaethu yn eu hardaloedd brodorol. Mae'n debyg bod gormod o risg y byddent yn dewis peidio brwydro yn erbyn eu pobl eu hunain os byddai'r bobl hynny'n troi yn erbyn y Rhufeiniaid.

Does dim tystiolaeth i brofi o ble yn Ymerodraeth Rhufain y daeth y milwyr ategol oedd yn byw yng Ngelligaer. O le bynnag y daethent, byddent wedi derbyn eu gorchmynion milwrol yn yr iaith Ladin.

Yn gyffredinol felly, roedd y Rhufeiniaid yn cryfhau eu safle eu hunain gan ddefnyddio cryfderau'r bobl roeddent wedi'u trechu. Gallai unedau ategol gynnwys saethwyr, gwŷr meirch, defnyddwyr ffon dafl, taflwyr gwaywffyn a gwŷr traed ysgafn mwy cyffredinol.

Byddai milwyr ategol yn derbyn llai o gyflog na'r llengfilwyr ac roedden nhw'n edrych yn wahanol. Y gwahaniaethau mwyaf amlwg rhyngddynt oedd siâp y darian, oedd fel arfer yn hirgrwn, a'r gwahaniaeth yn lliwiau'r diwnig. Coch oedd y mwyaf cyffredin i lengfilwyr ond mae'n ymddangos mai'r lliwiau gwyrdd a hufen oedd fwyaf cyffredin i filwyr ategol.

Ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng y cleddyfau a'r cyllyll roedd y ddau'n eu defnyddio, ond er bod milwyr ategol yn taflu gwaywffyn, dim ond y llengfilwyr oedd yn defnyddio pilum (pila oedd y lluosog). Roedd hwn fel gwaywffon ond, yn lle bod â phwynt metel, roedd gan y pila goes hir haearn gyda phen siâp pyramid.

Roedd yn rhaid i filwyr dalu am eu hoffer eu hunain ac mae tystiolaeth i ddangos bod mwy nag un dyn yn defnyddio yr un helmed.

Roedd tua hanner y fyddin Rufeinig wedi'i wneud o filwyr ategol fel y rhai oedd yn byw yng Ngelligaer.